

Vale 

DOMESTIC ABUSE SERVICES  
GWASANAETHAU CAM-DRIN DOMESTIG

Llety  
Lloches



Gall bywyd fod yn wahanol



Linell Gymorth Live Fear  
Byw Heb Ofn Free Helpline

**0808 80 10 800**

ffôn • teict • sgwrsio byw • ebost  
call • text • live chat • email

**Gallwn ddarparu llety  
brys a dros dro mewn  
llety i bobl sy'n dianc rhag  
cam-drin domestig**

## **CYRCHU LLETY LLOCHES**

Mae ein llety lloches yn lle dros dro, diogel a chyfrinachol lle gallwch chi ystyried eich opsiynau a chynllunio sut i ail-adeiladu eich bywyd. Rydym ni'n gobeithio y bydd y llety'n gyfeillgar ac yn groesawgar i chi.

Mae gennym ni loches gymunedol, sydd ar gael dydd a nos 365 dydd y flwyddyn, ynghyd ag amrywiaeth o fannau hunangynhwysol i'r unigolion a'r teuluoedd hynny lle nad yw byw'n gymunedol yn addas.

Ein cam cyntaf yw trafod a fyddai ein llety lloches yn addas i chi. Rydym ni'n deall y gall fod yn anodd trafod rhai pethau ond byddwch yn onest gyda ni. Rydym ni am sicrhau eich bod chi'n cael y cymorth mae ei angen arnoch. Gallai fod angen eich atgyfeirio at loches arall os nad yw ein hun ni ar gael neu os na fydd yn addas i'ch anghenion.

Byddwn yn eich trin yn deg, gyda pharch, urddas a charedigrwydd ac rydym ni'n addo gwranddo arnoch. *Mae ein siatrtr gymorth ar gael yn [www.valedas.org](http://www.valedas.org)*

## SUT GALLWN NI EICH CEFNOGI CHI?

Pan fyddwch chi'n cytuno i dderbyn cymorth gan Wasanaethau Cam-drin Domestig y Vale, byddwn yn clustnodi gweithiwr cymorth i chi o'r enw SDAP (*sef Ymarferydd Cam-drin Domestig Arbenigol*).

Eich SDAP fydd eich prif bwynt cyswllt drwy gydol eich cymorth. Bydd yn eich helpu i ymgartrefu ac yn cynnig cymorth emosiynol, yn ogystal â chynnig eitemau ymarferol, megis dillad ac eitemau ymolchi, efallai na fyddant gennych chi.

Bydd eich SDAP yn parhau i gynnig cymorth i chi drwy gydol eich amser gyda ni.

## GALLWN HELPU GYDA'R CANLYNOL

### > Cynllunio diogelwch

- Deall eich hawliau a'ch opsiynau
- Cymorth emosiynol
- Eich helpu i ddod o hyd i gartref tymor hir neu symud yn ôl i'ch cartref yn ddiogel
- Eich cefnogi chi drwy'r broses droseddol neu lys sifil
- Eich helpu i ddeall eich materion ariannol neu ymdrin â dyled
- Eich helpu i ddatblygu perthnasoedd â'ch plant neu bobl eraill rydych chi'n agos iddynt
- Eich helpu i gyrchu gwasanaethau arbenigol ar gyfer cymorth pellach



## EICH CYNLLUN GWEITHREDU

Fel rhan o'n cymorth, byddwn yn cynnig sesiynau cymorth rheolaidd ar adegau y cytunwyd arnynt. Byddwn yn eich cefnogi i ddatblygu cynllun gweithredu sy'n amlinellu eich nodau ac unrhyw gamau gweithredu y byddwn yn eu cymryd i'ch helpu i ail-adeiladu eich bywyd.

Os oes gennych chi nodau y gall asiantaethau eraill eu cefnogi'n well, gallwn eich helpu i gyrchu'r rhain. Byddwn yn adolygu eich cynllun ym mhob sesiwn gymorth i sicrhau ei fod yn ystyrlon, yn berthnasol ac yn gyfoes.

## CYTUNDEB TRWYDDED

Mae'r cytundeb trwydded rhyngoch chi a'r landlord. Gwasanaethau Cam-drin Domestig y Vale yw'r asiant rheoli a bydd yn esbonio eich cytundeb trwydded a'r hawliau sydd gennych mewn perthynas â hyn.

Mae 'Cytundeb Trwydded ag Eithriad' yn rhoi'r hawl i chi aros yn yr eiddo ar sail dros dro wrth i chi ystyried eich opsiynau. Mae rheolau ar waith i'ch cadw chi a phreswylwyr eraill yn ddiogel. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn [www.valedas.org](http://www.valedas.org)

## CYFRINACHEDD

Byddwn yn gweithio gyda chi'n gwbl gyfrinachol. Ni fyddwn ni byth yn rhannu gwybodaeth amdanoch chi gyda'ch partner/cyn-bartner nac unrhyw unigolion eraill a byddwn ni fel arfer dim ond yn rhoi gwybodaeth i asiantaethau eraill gyda'ch cydsyniad.

Yr unig adeg y byddwn yn rhoi gwybodaeth i asiantaethau eraill heb roi gwybod i chi yw os bydd gennym ni ofnau mawr am eich diogelwch, neu ddiogelwch plentyn neu oedolyn arall sy'n agored i niwed.

## EICH DIOGELU CHI A'CH PLANT

Mae pawb sy'n gweithio i Wasanaethau Cam-drin Domestig y Vale wedi'u gwirio'n llawn ac yn cwblhau hyfforddiant rheolaidd o safon. Mae ganddynt ddyletswydd i fod yn broffesiynol a glynu wrth y polisiau a'r gweithdrefnau sy'n eich amddiffyn chi a nhw. Golyga hyn na allant feithrin cyfeillgarwch ag unrhyw un maent yn ei gefnogi. Mae hefyd yn golygu y byddant bob amser yn eich trin â pharch ac yn gweithio i'ch diogelu chi a'ch plant. Gallwch ofyn i weld unrhyw un o'n polisiau drwy ein he-bostio ni yn [info@valedas.org](mailto:info@valedas.org)

## SYLWADAU A CHWYNION

Rydym ni bob amser am ddysgu o adborth a cheisio cywiro unrhyw gamgymeriadau a wneir gennym. Os oes gennych chi sylw neu gŵyn, gallwch chi naill ai eu codi gyda'r SDAP, ein he-bostio ni yn [info@valedas.org](mailto:info@valedas.org) neu ein ffonio ar 01446 744755 a gofyn i siarad â rheolwr.

Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar ein gwefan [www.valedas.org](http://www.valedas.org)





**Am ragor o wybodaeth ffoniwch ein llinell gymorth**

**01446 744755**

**neu e-bostiwrch**

**info@valedas.org**

 **valedas.org**

*Gall bywyd fod yn wahanol*